# Aflibercept ar gyfer trin nam ar y golwg a achoswyd gan oedema macwlaidd o achludiad yn y gwythiennau retinol adrannol

Medi 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir aflibercept (Eylea) fel triniaeth bosibl ar gyfer pobl â nam ar y golwg a achoswyd gan oedema macwlaidd o achludiad yn y gwythiennau retinol adrannol.

**Beth mae hyn yn ei olygu i mi?**

Os oes gennych nam ar y golwg fel y disgrifir uchod, a bod eich meddyg o'r farn mai aflibercept yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai aflibercept fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis.

**Y cyflwr a'r driniaeth**

Y macwla yw rhan ganol y retina yng nghefn y llygad. Pan geir rhwystr yn un o'r gwythiennau retinol (a elwir yn achludiad yn y gwythiennau retinol), gall gwaed ollwng i'r macwla gan achosi iddo chwyddo. Gelwir hyn yn oedema macwlaidd a gall effeithio ar y golwg. Mae dau fath o rwystr, gan ddibynnu ar ba ran o'r wythïen sydd wedi'i rhwystro: achludiad yn y gwythiennau retinol canolig neu adrannol.

Rhoddir aflibercept drwy bigiad i mewn i'r llygad. Mae'n gweithio drwy rwystro'r sylweddau sy'n symbylu twf y pibellau gwaed abnormal yng nghefn y llygad.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB), 0303 123 9999
- Y Gymdeithas Facwlaidd, 0300 3030 111

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2139-3